

Ribociclib gydag atalydd aromatase ar gyfer canser y fron datblygedig yn lleol neu fetastatig, sy'n dderbynnnydd hormonau positif, HER2-negatif sydd heb ei drin yn flaenorol

20 Rhagfyr 2017

Mae ribociclib (Kisqali) gydag atalydd aromatase ar gael ar y GIG. Mae'n opsiwn posibl i ferched ar ôl y menopos â chanser datblygedig yn lleol neu fetastatig lle mae'r canlynol yn gymwys:

- mae'r canser yn dderbynnnydd hormonau positif ac yn dderbynnnydd ffactor twf epidermol pobl 2 (HER2)-negatif ac
- nid yw wedi'i drin gyda therapi endocrin yn flaenorol.

Os nad ydych yn gymwys i gael ribociclib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Breast Cancer Now](#), 0333 207 0300
- [Gofal Canser y Fron](#), 0808 800 6000
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#) (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2762-3